



Cam 9: Cyfrifo elw

Amcanion dysgu

- I gyfrifo elw
- I ddatrys problemau aml-gam

Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn cael eu cyflwyno i'r cysyniad o refeniw ac elw ac yn cael eu harwain trwy bob cam o benderfynu ar bris eu cynnyrch, gan gyfrifo cyfanswm eu refeniw a'u helw disgwylidig.

Deunyddiau

- Mynediad i'r rhyngrwyd neu archfarchnad
- Taflen strategaeth farchnata

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2: Sut ydyn ni'n dewis pris gwerthu?	<ul style="list-style-type: none">• Heddiw, rydyn ni'n mynd i benderfynu pa bris y byddwn ni'n ei godi am ein cynnyrch.• Gofynnwch i'r grwpiau busnes feddwl am y ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth benderfynu ar bris a chymryd adborth.
Sleid 3: Ymchwilio'r gystadleuaeth	<ul style="list-style-type: none">• Rhowch gyfle i'r plant ddefnyddio gwefan archfarchnad i ymchwilio i brisiau cynhyrchion eu cystadleuwyr.
Sleid 4: Refeniw	<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyno'r cysyniad o refeniw a modelu sut i'w gyfrifo gan ddefnyddio'r 'PowerPoint'. Refeniw yw'r swm o arian y mae busnesau yn ei wneud o werthu eu cynhyrchion, cyn ystyried cost gwneud y cynhyrchion.• Gofynnwch i'r plant gyfrifo cyfanswm eu refeniw disgwylidig os ydyn nhw'n gwerthu eu holl gynhyrchion am y pris gwerthu o'u dewis.
Sleid 5-6: Elw	<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyno'r cysyniad o elw a rhoi enghreifftiau i'r plant weithio allan.• Er mwyn i fusnes lwyddo, mae angen iddynt wneud elw. Elw yw faint o arian sydd gan fusnesau ar ôl ar ôl iddynt dynnu cost gwneud y cynhyrchion o'u refeniw.
Sleid 7: Cyfanswm yr elw	<ul style="list-style-type: none">• Gofynnwch i'r plant dynnu cyfanswm cost prynu eu cynhwysion o gyfanswm eu refeniw disgwylidig i gyfrifo cyfanswm eu helw.• I atgyfnerthu eu dysgu, gofynnwch i'r plant ddefnyddio ap bwrdd gwyn fel 'Explain Everything' i arddangos eu cyfrifiadau ac ychwanegu esboniadau llafar i wneud fideo cyfarwyddiadau byr.• Gallai'r plant hefyd ymestyn eu dysgu trwy ddefnyddio Google Sheets / MS Excel i greu taenlen elw / colled sylfaenol. Gallent geisio defnyddio gwahanol werthoedd i weld a allant wneud y mwyaf o elw naill ai trwy dorri costau neu godi'r pris.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Mathemateg	Adio a thynnu	<ul style="list-style-type: none">• Adio a thynnu rhifau gyda hyd at 4 digid gan ddefnyddio'r dulliau ysgrifenedig ffurfiol o adio a thynnu colofnau lle bo hynny'n briodol• Datrys problemau dau gam adio a thynnu mewn cyd-destunau, gan benderfynu pa weithrediadau a dulliau i'w defnyddio a pham
Dylunio a thechnoleg	Gwerthuso	<ul style="list-style-type: none">• Ymchwilio a dadansoddi ystod o gynhyrchion sy'n bodoli eisoes
Cyfrifiadureg		<ul style="list-style-type: none">• Dewis, defnyddio a chyfuno amrywiaeth o feddalwedd (gan gynnwys gwasanaethau rhynggrwyd) ar ystod o ddyfeisiau digidol i ddylunio a chreu ystod o raglenni, systemau a chynnwys sy'n cyflawni nodau penodol, gan gynnwys casglu, dadansoddi, gwerthuso a chyflwyno data a gwybodaeth